

# Teilwra, Profi ac Asesu Risg:

# Cyfleoedd Lliniaru Risg

# I’ch atgoffa…

## Mae angen addasu’r templedi a’r canllawiau sydd yn y pecyn cymorth i’ch prosiect chi.

**Ar rai o’r templedi, mae canllawiau ar ba destun mae angen ei gadw yn ei le yn dilyn cyngor cyfreithiol annibynnol**

Y sefydliad sy'n yswirio'r prosiect sy'n atebol am unrhyw ddamweiniau neu anafiadau!

# Lliniaru Risg

## Pam ydyn ni'n ei wneud?



Mae'n hanfodol i gadw pawb yn ddiogel ac i fagu ymddiriedaeth

# Cyfleoedd Lliniaru Risg

- Cynefino a Hyfforddiant Gwirfoddolwyr/ Staff
- Polisïau
- Platfform Benthyg Ar-lein
- Taith aelod a chyfathrebu
- Stocrestr

Lleoliad

# Lliniaru Risg – Lleoliad

- Asesiad Risg o'r Safle – mewnol ac allanol, gan gynnwys pob gweithgaredd
- Person "cymwys" wedi cynnal asesiadau tân ac iechyd a diogelwch
- Holl offer iechyd a diogelwch – blwch Cymorth Cyntaf, llyfr damweiniau, diffoddyddion tân – yn cael eu cynnal a'u cadw
- Unrhyw hyfforddiant iechyd a diogelwch perthnasol gan gynnwys tân a Chymorth Cyntaf i'w gynnal yn rheolaidd, a chofnodion yn cael eu cadw
- Cynefino staff yn cynnwys yr holl weithdrefnau a pholisïau iechyd a diogelwch
- Yswiriant – siaradwch â'ch darparwr
- Storio
- Rhestr wirio ac amserlennu – glanhau, gofynion cyfreithiol iechyd a diogelwch, rheoli gwastraff, ac ati.

# Lliniaru Risg – Hyfforddiant Gwirfoddolwyr a Staff

- Hyfforddiant cynefino i'r lleoliad a pholisïau a phrosesau iechyd a diogelwch
- Cyflwyniad i adnoddau Benthyg Cymru a'r llawlyfr a polisïau i wirfoddolwyr
- Hyfforddiant wyneb yn wyneb ar y safle am y broses fenthyg a'r camau ymarferol i liniaru risg i'r tîm ac i fenthycwyr
- Ymweld â Llyfrgelloedd Pethau eraill i weld sut maen nhw'n gweithio
- Hyfforddiant am y platform Benthyg a defnyddio'r holl opsiynau lliniaru risg
- Cynnal a chadw eitemau a phrofion PAT – hyfforddiant a pholisïau
- Arddangos gwybodaeth ategol – fel y rhestr wirio dychwelyd eitemau – i gefnogi gwirfoddolwyr trwy'r broses

# Lliniaru Risg - polisïau

- Llawlyfr Gwirfoddolwyr a pholisïau ar y safle ac ar gael i bawb
- Diogelu data – polisi GDPR
- Polisi diogelu
- Polisi gweithio ar eich pen eich hun
- Cydnabod atebolrwydd am eitem uwch ei risg
- Polisi profion-PAT
- Datganiad o fwriad iechyd a diogelwch
- Cynnal asesiad/au risg priodol am y lleoliad a'r holl weithgareddau yn y gofod
- Cytundeb benthycwyr a'r hawliildiad atebolrwydd

Os ydych chi'n rhannu'ch gofod neu rydych o fewn safle sefydliad arall, gweithiwch gyda'u harweinydd polisi nhw i sicrhau bod polisïau yn adlewyrchu gofynion a gweithgareddau'r ddau gorff. Cytunwch ar unrhyw brosesau a pholisïau cyffredin am asesu risg gweithredol, h.y. tân, cymorth cyntaf, diogelu, ac ati.

# Lliniaru Risg - Y Platfform Benthyg

Gall eich platfform benthyg eich helpu i leihau risg yn y broses fenthyg.

- Gwirio dull adnabod aelodau cyn iddyn nhw fenthyg am y tro cyntaf (Prawf o oedran a chyfeiriad)
- Cytundeb benthyg a hawlildiad atebolrwydd wedi'u llofnodi a'u cadw ar eu proffil
- Archwilio a gwirio eitemau cyn eu hychwanegu at y stocrestr, gan gynnwys prawf-PAT os oes angen
- Clustnodi eitemau ar y system i'w cynnal a chadw'n rheolaidd
- Cofnod eitem yn nodi'r PPEsy'n cael ei argymhell (ymgynghori â'r llawlyfr am hyn)
- Cofnod eitem yn cynnwys dolen i'r llawlyfr – hanfodol am eitemau trydanol/mechanyddol
- Teilwra nodiadau atgoffa wrth tsecio eitem benodol i mewn/allan
- Os penderfynwch gynnwys dolenni fideo – cynhwyswch ddim ond fideos a wnaed gan y gweithgynhyrchudd / brand

# Cyfathrebu ag Aelodau

- Mae’r Cytundeb Benthyciwr a’r Hawlildiad Atebolrwydd sy’n amodau aelodaeth yn cael eu llofnodi a’u cadw ar-lein yng nghyfrif yr aelod
- Atgoffa gyda phob e-bost cadarnhau bod eitem ar gadw ac e-bost tsecio allan
- Dalen cydnabod atebolrwydd ar gyfer benthyciadau risg uwch – h.y. torrwr prysgwydd
- Negeseuon wrth tsecio allan i atgoffa ar lafar am y Cytundeb Benthyciwr a’r Hawlildiad Atebolrwydd ac i atgoffa cwsmeriaid i ddarllen y llawlyfr/ cyfarwyddiadau i ddefnyddwyr
- Neges atgoffa wrth tsecio i mewn am wirio profiad defnyddiwr ac unrhyw broblemau gydag eitem
- Wrth tsecio allan – rhowch gyfarwyddiadau llafar byr, lle bo modd (sydd wedi’u seilio ar y llawlyfr)




Argymhelliad ychwanegol – adiwch laminad o’r cyfarwyddiadau cryno at bob eitem – gan gynnwys y cydrannau ac ati.

# Lliniaru Risg - Stocrestr

- Storio eitemau’n ddiogel a’u labelu
- Archwiliad gweledol o eitemau a’u troi ymlaen/diffodd ar ôl pob benthyciad
- Eitemau trydanol wedi'u profi a'u troi ymlaen/diffodd ar ôl pob benthyciad
- Staff/gweinyddwyr yn cofnodi damweiniau neu wallau
- Eitemau uwch eu risg yn cael prawf PAT bob tro maen nhw’n cael eu dychwelyd
- Angen asesiad risg unigol ar rai eitemau os bernir eu bod yn risg uwch posibl
- Lleoliad yn cynnig PPE i’w brynu neu ei fenthyg gydag eitemau lle bo’n briodol [Opsiynol]




BENTHYG CYMRU

# Rheoli Risgiau'n Barhaus

Pryd dylech chi edrych o'r newydd ar broses neu adolygu asesiad risg?

- Mae proses yn newid
- Newidiadau Staff/ Gwirfoddolwyr
- Stocrestr Newydd
- Clywed bod newidiadau rheoleiddiol
- Bodloni amserlenni cyfreithiol gofynnol / cynghorol – Tân, iechyd a diogelwch, ac ati
- Symud lleoliad/ newidiadau i leoliad presennol

Adolygwch wrth i newidiadau ddigwydd ond o leiaf unwaith y flwyddyn, a gwnewch yn siŵr bod hynny yn y dyddiadur!

Dylai lliniaru risg aros yn flaenoriaeth wrth i'ch cangen Benthyg dyfu ac esblygu.

Anogwch staff a gwirfoddolwyr i dynnu sylw at unrhyw welliannau maen nhw'n credu y byddent yn lliniaru risg ymhellach wrth i chi dyfu a dod yn rhan sefydledig o'ch cymuned.

# Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Darllen** | Cyrchwch yr adnoddau yn y pecyn cymorth |
| **Adolygu** | Adolygwch eich prosesau presennol o safbwynt y cyfleoedd allweddol i liniaru risg a chreu cynllun am adio unrhyw brosesau a pholisïau ychwanegol |
| **Perthnasol** | Teilwrwch i'ch safle chi, eich tîm chi |
| **Cynnal** | Mae risg yn broses reoli gyson, gwnewch yn siŵr eich bod yn diweddaru ac yn addasu yn ôl yr angen |
| **Cysylltu** | Â'r tîm datblygu am gymorth a chyngor |